



**Ombwdsmon
Ombudsman**
Cymru · Wales

Coflyfr Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2023/24



Ein rôl

Mae gennym dair rôl yn bennaf:



Rydym yn ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus.



Rydym yn ystyried cwynion am gynghorwyr sy'n torri'r Cod Ymddygiad.



Rydym yn sbarduno gwelliannau systemig mewn gwasanaethau cyhoeddus a safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol yng Nghymru.

Rydym yn annibynnol, yn ddiuedd, yn deg ac yn agored i bawb sydd ein hangen. Mae ein gwasanaeth yn rhad ac am ddim.

Gallwn ddarparu crynodeb o'r ddogfen hon mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras a Hawdd ei Ddeall. I wneud cais, cysylltwch â ni:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn:

0300 790 0203

E-bost:

cyfathrebu@ombwdsmon.cymru

Cynnwys

- 4 Rhagair
- 6 Fframweithiau cydraddoldeb a hawliau dynol
- 8 Geirfa
- 9 Yr achosion
- 10 Achosion yn ymwneud â Na Cheisier Dadebru Cardio-Anadlol (DNACPR)
- 14 Achosion eraill yn ymwneud â hawliau dynol ac Egwyddorion FREDA
- 22 Achos yn ymwneud â gwasanaethau rhyw
- 24 Achosion yn ymwneud ag addasiadau rhesymol
- 32 Atodiad - Erthyglau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Rhagair

Dyma ein pumed Coflyfr ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Fel rydw i'n ei wneud bob blwyddyn, mae'n rhaid i mi bwysleisio nad ein rôl yw dod i'r casgliad bod hawliau dynol rhywun wedi'u torri, neu eu bod wedi dioddef gwahaniaethu. Mater i'r llysoedd yw hynny.

Fodd bynnag, gwelwn yn ein gwaith achos bob dydd fod materion hawliau dynol a chydraddoldeb yn aml yn anwahanadwy oddi wrth bobl yn cael eu trin yn annheg ac yn dioddef anghyfiawnder. Felly, os gwelwn fod hawliau dynol neu hawliau cydraddoldeb rhywun wedi'u hymgysylltu yn yr achosion a ystyriwn, byddwn yn datgan hynny'n glir yn ein casgliadau ac yn gwneud argymhellion priodol.

Mae rhywfaint o'r achosion a gaeom yn 2022/23 ac yn hanner cyntaf 2023/2024 yn dal i ymwneud â digwyddiadau a fu yn ystod pandemig Covid ac yn ystod y mesurau a'r cyfyngiadau a gyflwynwyd i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Gan barhau â'r thema a gyflwynwyd yn ein Coflyfrau blaenorol, cyflwynwn yma 2 achos sy'n ymwneud â chymhwyso'r weithdrefn 'Na cheisier dadebru cardio-anadlol ('DNACPR'). Yn y ddau achos hyn,

gwelsom y gallai'r methiannau a nodom fod wedi ymwneud ag Erthygl 8 o'r Ddeddf Hawliau Dynol - yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth.

Yn ogystal, cynhwyswn sawl achos pellach lle penderfynom y gallai dyletswyddau hawliau dynol darparwyr gwasanaeth cyhoeddus fod wedi'u hymwneud - neu na ystyriodd y darparwyr egwyddorion FREDA, sef Tegwch, Parch, Cydraddoldeb, Urddas ac Ymreolaeth - sef gwerthoedd craidd sy'n sail i hawliau dynol.

Mae'r detholiad yn y coflyfr hwn hefyd yn amlygu rhai cwynion sy'n ymwneud â dyletswyddau cydraddoldeb - yn bennaf, y ddyletswydd i gynnis addasiadau rhesymol i bobl anabl. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cynnwys un enghraifft o gŵyn yn ymwneud â gwasanaethau i bobl draws.

Er bod y rhan fwyaf o'r achosion sydd wedi'u cynnwys yn y Coflyfr hwn yn enghreifftiau o adegau pan wnaethom gadarnhau'r elfennau o'r gŵyn sy'n ymwneud â materion hawliau dynol neu gydraddoldeb, rydym hefyd yn cynnwys nifer o gwynion na wnaethom eu cadarnhau. Credwn fod hyn yn bwysig i esbonio ein hymagwedd at achosion o'r fath yn well, ynghyd â

thynnu sylw at arfer gweinyddol cywir gan y cyrff a edrychwn arnynt.

Roeddem yn falch o weld ein gwaith i hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yn cael ei gydnabod yn gyhoeddus eleni gan Gyd Bwyllgor Hawliau Dynol Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi, yng nghyd-destun ymchwiliad y Pwyllgor hwnnw i rinweddau sefydlu Ombwdsmon Hawliau Dynol. Daeth yr ymchwiliad i gasgliad, ar sail y gwaith a wneir ar hyn o bryd gan ein swyddfa a'n chwaer sefydliadau, na fyddai gwerth sefydlu cynllun ar wahân. Gobeithiwn y bydd y detholiad a gyflwynir yn y Coflyfr hwn yn helpu i barhau i godi ymwybyddiaeth o'n hymdrechion i hyrwyddo ac amddiffyn hawliau dynol a hawliau cydraddoldeb y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

Michelle Morris

**Ombwdsmon
Gwasnaethau
Cyhoeddus Cymru**

Tachwedd 2023



Fframweithiau cydraddoldeb a hawliau dynol

Rydym wedi ymrwymo i'r egwyddorion a'r dyletswyddau statudol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol y DU a fframweithiau rhyngwladol.

Wrth edrych ar ein cwynion, ystyriwn y canlynol:

- y dyletswyddau cydraddoldeb o dan y Ddeddf Gydraddoldeb 2010
- Erthyglau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) fel y maent wedi'u hymgorffori yn y gyfraith gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 (HRA)
- Egwyddorion FREDA (Tegwch, Parch, Cydraddoldeb, Urddas ac Ymreolaeth) – gwerthoedd hanfodol sy'n sail i hawliau dynol.

Dyletswyddau cydraddoldeb

O dan y ddyletswydd gyffredinol, mae'n rhaid i ni roi sylw dyledus i'r angen i:

- gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd gan y Ddeddf

- symud cydraddoldeb cyfle ymlaen rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai hynny nad ydynt yn rhannu nodwedd warchoddedig
- meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd warchoddedig.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn cwmpasu'r nodweddion gwarchoddedig canlynol:

- oed
- anabled
- rhywedd
- cyfeiriadedd rhywiol
- ailbennu rhywedd
- hil (gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd)
- crefydd neu gred (yn cynnwys diffyg cred)
- beichiogrwydd a mamolaeth
- priodas a phartneriaeth sifil (ond dim ond mewn perthynas â'r gofyniad i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu).

Yn ogystal, mae gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru ddyletswyddau penodol i'w helpu wrth berfformio'r ddyletswydd gyffredinol.

Hawliau dynol

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn ymgorffori'r hawliau a'r rhyddid ac sydd wedi'u nodi yn y ECHR yng nghyfraith ddomestig y DU.

Mae rhai yn hawliau diamod, sy'n golygu y dylai'r dinesydd fod yn rhydd i'w mwynhau, ac ni all y wladwriaeth

byth ymyrryd. Mae rhai yn hawliau cyfyngedig, sy'n golygu y gellir ymyrryd â nhw mewn rhai amgylchiadau (fel yn ystod rhyfel neu argyfwng).

Yn olaf, mae eraill yn hawliau amodol, sy'n golygu y gall y wladwriaeth ymyrryd yn gyfreithiol â nhw mewn rhai sefyllfaoedd - er enghraifft, i amddiffyn hawliau dinasyddion eraill. Yr hawliau mwyaf cyffredin yn y cwynion a ystyriwyd gan ein swyddfa yw'r canlynol:

Erthygl 2 - Yr hawl i fywyd

Erthygl 3 - Yr hawl i fod yn rhydd rhag artaith neu driniaeth neu gosb greulon, annynol neu ddiraddiol

Erthygl 5 - Yr hawl i ryddid a diogelwch

Erthygl 6 - Yr hawl i gael gwrandawriad teg

Erthygl 8 - Yr hawl i gael parch am fywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth

Erthygl 9 - Yr hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd

Erthygl 10 - Yr hawl i ryddid mynegiant

Erthygl 14 - Gwahardd gwahaniaethu

Mae'r achosion sydd wedi'u cynnwys yn y Coflyfr hwn yn ymwneud yn bennaf ag Erthyglau 5 a 8.

Cynhwyswn fwy o fanylion am gwmpas yr erthyglau hyn yn yr Atodiad.

Gerifa

Pan fyddwn yn ystyried cwyn ac yn canfod bod rhywbeth wedi mynd o'i le gyda gwasanaethau cyhoeddus, gallwn ymyrryd yn ystod y cam asesu neu'r cam ymchwilio.

Pan fyddwn yn ymyrryd yn y cam asesu, galwn hynny'n **Ddatrysiad Cynnar**. Mae hyn yn golygu y gallwn wneud argymhellion i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn gyflymach, heb gynnal ymchwiliad llawn.

Os bydd angen i ni gynnal ymchwiliad llawn a'n bod yn canfod bod rhywbeth wedi mynd o'i le, byddwn fel arfer yn paratoi **adroddiad neu lythyr penderfyniad** sy'n esbonio ein canfyddiadau.

Weithiau, byddwn yn penderfynu cyhoeddi **adroddiad 'budd y cyhoedd'**. Gwnawn hyn er enghraifft pan:


- mae gwersi ehangach o'n hymchwiliad ar gyfer cyrff eraill
- roedd yr hyn a aeth o'i le yn arwyddocaol iawn
- efallai bod y broblem a ganfuom yn effeithio ar lawer o bobl, nid dim ond y sawl a gwynodd i ni, neu
- roeddem wedi tynnu sylw'r corff at y broblem yn y gorffennol, ond nid oedd y corff wedi mynd i'r afael â hi.

Fel arall, byddwn fel arfer yn cyhoeddi canfyddiadau ein hymchwiliad fel adroddiad **'nad yw er budd y cyhoedd'**.

Yr achosion

Yn yr adran hon, cyflwynwn rai o'r achosion perthnasol a gaeom yn ystod 2022/23 a hyd at fis Tachwedd 2023.

Ar gyfer y coflyfr hwn, rydym wedi symleiddio ac addasu crynodebau achosion i'w gwneud yn fwy hygyrch ac i egluro goblygiadau cydraddoldeb neu hawliau dynol y gŵyn yn well. Fodd bynnag, gellir dod o hyd i grynodebau ffurfiol o'r achosion hyn ar ein gwefan [yma](#).



Achosion yn ymwneud â Na Cheisier Dadebru Cardio-Anadlol (DNACPR)

DNACPR

Mae penderfyniad Na Cheisier Dadebru Cardio-Anadlol (DNACPR) yn golygu os bydd eich calon neu eich anadlu yn stopio, ni fydd y tîm gofal iechyd yn ceisio eu hailgychwyn.

Dylai'r penderfyniad bwysu a mesur manteision posibl dadebru gyda'r risg o niwed i'r claf unigol.

Yn ystod y pandemig COVID-19, gosododd Llywodraeth Cymru a'r GIG gyfyngiadau ar ymweliadau ag ysbytai gan deuluoedd cleifion ac ar drefniadau angladd a chynulladau cymdeithasol. Gwnaethant hefyd ddiwygio'r polisi DNACPR a'r canllawiau ar gwblhau tystysgrifau marwolaeth. Daeth y mwyafrif o'r darpariaethau dros dro hyn i ben ym mis Mawrth 2022.

202105760

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Adroddiad nad yw er budd y cyhoedd

Y gŵyn

Cwynodd Miss A i ni am y gofal a'r driniaeth a gafodd ei mam, Mrs B, gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Roedd Miss A yn pryderu bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud penderfyniad DNACPR heb ymgynghori'n briodol â Mrs B na'i theulu. Roedd hi hefyd yn pryderu bod rhyddhau Mrs B a'i throsglwyddo i ysbyty arall yn amhriodol ac na roddodd y

Bwrdd Iechyd wybod i'r teulu bod cyflwr Mrs B yn gwaethygu, ar ôl derbyniad arall i'r ysbyty.

Yr hyn a ganfuom

Canfuom fod cyfiawnhad clinigol dros y penderfyniad DNACPR, ond ni wnaeth y Bwrdd Iechyd y penderfyniad yn unol â'r polisi DNACPR. Nid oedd unrhyw gofnod o unrhyw drafodaeth â Mrs B na'i theulu. Cydnabuom y bu'r clinigwyr dan sylw yn gweithio o dan bwysau aruthrol ar y pryd oherwydd y pandemig COVID-19. Fodd bynnag, hyd yn oed o ystyried yr amgylchiadau digynsail, gallai'r clinigwyr fod wedi, a dylent fod wedi, trafod y penderfyniad DNACPR gyda theulu Mrs B.

Canfuom hefyd fod y Bwrdd Iechyd wedi rhyddhau Mrs B yn amhriodol. Ni wnaeth ddigon i sicrhau bod Mrs B wedi gwella'n llwyr a bod ganddi'r cymorth cywir gartref.

Fodd bynnag, penderfynom fod y trosglwyddiad i ysbyty arall yn glinigol briodol gan fod Mrs B mewn cyflwr cymharol sefydlog bryd hynny. Er i'r Bwrdd Iechyd ddiweddarau Miss A yn rheolaidd am gyflwr Mrs B, canfuom na chymerodd y camau cywir i drefnu ymweliad pan oedd yn amlwg bod Mrs B yn nesáu at ddiwedd ei hoes.



Yr hyn a ddywedom

Mae polisi DNACPR yn pwysleisio y dylid trafod y penderfyniad o dan y polisi a recordio'r drafodaeth honno. Ni welsom y recordiad o'r drafodaeth honno â Mrs B. Aeth hyn yn erbyn hawliau Mrs B i hunan-benderfyniad a dewis o dan **Erthygl 8 o'r Ddeddf Hawliau Dynol**. Roedd gan Mrs B a'i theulu hefyd yr hawl i'w bywyd teuluol gael ei barchu, a dylai o leiaf un aelod o'r teulu fod wedi cael ymweld â Mrs B cyn iddi farw – hyd yn oed o dan y cyfyngiadau ymweld llym yn ystod y pandemig COVID-19.

Yr hyn a argymhellom

Gwnaethom argymhell y dylai'r Bwrdd Iechyd ymddiheuro am ei fethiannau ac atgoffa staff perthnasol am gynnal a dogfennu trafodaethau DNACPR â chleifion a'r sawl sy'n agos atynt, yn unol â'r Polisi DNACPR.

202101144

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Adroddiad nad yw er budd y cyhoedd

Y gŵyn

Cwynodd Mr D am y gofal â'r driniaeth a gafodd ei ddiweddar wraig, Mrs D, mewn ysbyty a reolir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Cwynodd Mr D na chyfathrebodd y Bwrdd Iechyd yn dda â Mrs D a'i theulu ac na chynigiodd y cymorth cywir iddynt. Cwynodd hefyd nad oedd gastrosgopi Mrs D (triniaeth i wirio rhan uchaf y system dreulio) yn briodol ac o'r safon gywir. Roedd Mr D hefyd yn anhapus â'r cynllunio gofal, gan gynnwys trafodaethau ynghylch cytundeb DNACPR ar gyfer Mrs D.

Yr hyn a ganfuom

Canfuom fod penderfyniad y Bwrdd Iechyd i ymgymryd â gastrosgopi yn un rhesymol a bodlonodd y driniaeth safonau briodol.

Fodd bynnag, canfuom y gallai'r Bwrdd Iechyd fod wedi gwneud mwy i gynorthwyo Mrs D i gyfathrebu ac i gael cymorth gan ei theulu, yn enwedig yn ystod sgysiau anodd ac mewn perthynas â'i dymuniadau DNACPR. Hefyd, nid oedd gan y Bwrdd Iechyd ddigon o ddogfennaeth i esbonio pam y gwaethygodd cyflwr Mrs D.



Yr hyn a ddywedom

Pan na allai Mrs D siarad drosti ei hun, ni roddodd y Bwrdd Iechyd wybod i Mr D am ei dymuniadau. Roedd hyn yn golygu na chafodd Mr D ei hysbysu'n llawn pan ofynnodd y Bwrdd Iechyd iddo drafod DNACPR. Penderfynom fod hyn wedi ymgysylltu ag **Erthygl 8 o'r Ddeddf Hawliau Dynol**, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod cleifion yn gallu mynegi eu dymuniadau am eu gofal a'u triniaeth.

Yr hyn a argymhellom

Yn ogystal ag ymddiheuriad i deulu Mrs D, gwnaethom argymell fod y Bwrdd lechyd yn gwella'r ffordd y mae'n dogfennu bod cleifion wedi cael gwybod am eu dewisiadau a'r cymorth sydd ar gael iddynt i gyfathrebu â theulu a ffrindiau.

Gwnaethom argymell bod y Bwrdd lechyd yn atgoffa clinigwyr y dylai cleifion allu cael cymorth gan eu teulu neu ffrindiau yn ystod sgysiau anodd.

Hefyd, pan na fydd cleifion yn gallu siarad drostynt eu hunain mwyach, dylai'r clinigwyr hefyd gofnodi eu bod wedi gwirio'r dymuniadau y mae'r cleifion wedi'u mynegi.

Gwnaethom argymell hefyd fod y Bwrdd lechyd yn archwilio sampl o gofnodion ar y ward berthnasol i gadarnhau a yw arsylwadau yn cael eu dogfennu yn gywir.

Achosion eraill yn ymwneud â hawliau dynol ac Egwyddorion FREDA

202101000

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Adroddiad budd y cyhoedd

Y gŵyn

Cwynodd Mrs F am y gofal a gafodd ei chwaer, Ms G, gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Cwynodd Mrs F fod oedi wrth osod stentiau (draeniau) yn aren Mrs G wedi arwain at gymhlethdodau diweddarach â'i chyflwr a bod Ms G wedi cael gofal annigonol o ran ei choluddyn. Roedd Mrs F hefyd yn anhapus â sut yr ymatebodd y Bwrdd Iechyd i'w chwynion.

Yr hyn a ganfuom

Canfuom fod y driniaeth a gafodd Ms G i'w harenau yn rhesymol. Fodd bynnag, canfuom na chafodd Ms G y math penodol o ofal y coluddyn yr oedd ei angen arni gan nad oedd staff medrus ar gael i'w roi. Ni ddywedodd y nyrsys wrth y meddygon nad oedd wedi'i wneud. Canfuom hefyd fod Ms G wedi datblygu symptomau newydd a allai fod wedi golygu bod ganddi rwystr yn y coluddyn, ond ni chafodd hyn ei ystyried a chafodd ei rhyddhau adref. Ni allem ddweud â sicrwydd bod y digwyddiadau hyn wedi cyfrannu at farwolaeth Ms G, ond roeddent yn peri pryder. Canfuom hefyd na chadwodd y Bwrdd Iechyd gofnodion yn dda ac nad oedd wedi ymchwilio'n ddigon agored na thrylwyr i gŵyn Mrs F.



Yr hyn a ddywedom

Mae 'gofal gydag urddas' yn egwyddor yn y fframwaith proffesiynol ar gyfer nyrsys a gynghorir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Dywedodd Mrs F fod symptomau coluddyn ei chwaer yn codi cywilydd ar Ms G, a bod y gofal annigonol i'w choluddyn yn golygu ei bod wedi colli urddas. Dylai hawliau Ms G a Mrs F o dan y Ddeddf Hawliau Dynol fod wedi'u hystyried hefyd - yn benodol o dan **Erthygl 8**, yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol.

Yr hyn a argymhellom

Yn ogystal ag ymddiheuriad ac iawndal ariannol i Mrs F, cytunodd y Bwrdd Iechyd i rannu ein hadroddiad â'r staff a fu'n rhan o ofal Ms G. Cytunodd hefyd i atgoffa staff nyrsio am arfer gywir wrth gadw cofnodion, i lenwi Protocol Gofal y Coluddyn a sicrhau bod digon o staff wedi'u hyfforddi i wacáu'r coluddyn â llaw. Yn olaf, cytunodd i adolygu ei ddull o ymdrin â chwynion ac ymatebion yng ngoleuni Dyletswydd Gonestrwydd GIG Cymru, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2023.

Y Ddyletswydd Gonestrwydd

Mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn ofyniad cyfreithiol ar holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn agored ac yn glir â defnyddwyr gwasanaeth pan fyddant yn dioddef niwed wrth dderbyn gofal iechyd.

Mae'r achos hwn hefyd wedi ymddangos yn ein Hadroddiad Thematig diweddar 'Rhoi Diwedd ar yr Un Hen Gân Beunyddiol 2' a dynnodd sylw at faterion parhaus o ran sut mae Byrddau Iechyd Cymru yn ymdrin â chwynion ac yn nodi methiannau.

202106678

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Adroddiad nad yw er budd y cyhoedd

Y gŵyn

Cwynodd Mrs B am y gofal a gafodd ei mam, Mrs C, gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ar ôl iddi gael ei derbyn i'r ysbyty ym mis Hydref 2020. Roedd Mrs B yn bryderus nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi asesu a thrin anghenion ymataliaeth Mrs C yn briodol, i'w galluogi i ryddhau yn amserol. Roedd hefyd yn bryderus nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi cynnwys Mrs B mewn trafodaethau am anghenion meddygol Mrs C. Yn olaf, cwynodd nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi cynnig y gofal diwedd oes cywir i Mrs C.

Yr hyn a ganfuom

Canfuom nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi ystyried sut i reoli rhwymedd Mrs C ac i ddarparu triniaeth gynharach a allai fod wedi lleddfu ei symptomau. Canfuom hefyd na chyfathrebodd y Bwrdd Iechyd yn briodol â Mrs B, a effeithiodd yn negyddol ar ei gofal. Fodd bynnag, ni wnaethom gadarnhau'r gŵyn am ofal diwedd oes Mrs C oherwydd canfuom fod ei gofal yn briodol ac yn cyd-fynd â'r canllawiau perthnasol.



Yr hyn a ddywedom

Roedd methiannau'r Bwrdd Iechyd o ran cadw cofnodion, cynllunio gofal a chyfathrebu yn golygu nad oedd agweddau ar y gofal a ddarparwyd i Mrs C yn cyd-fynd ag **egwyddor FREDA o Urddas**. Nid oedd y methiant i ddiweddarau Mrs B yn briodol yn cyd-fynd ychwaith ag **egwyddor FREDA o Barch**, oherwydd adlewyrchodd diffyg pryder am ei hanghenion a'i hawliau fel anwylyd ac eiriolwr ar ran ei mam.

Roedd y methiannau hyn yn peri pryder oherwydd y rôl bwysig y mae egwyddorion FREDA yn ei chwarae wrth sicrhau bod gofal iechyd yn cael ei roi mewn ffordd sy'n amddiffyn hawliau dynol cleifion a'u teuluoedd.

Yr hyn a argymhellom

Cytunodd y Bwrdd Iechyd i ymddiheuro i Mrs B. Cytunodd hefyd i atgoffa'r holl staff nyrsio yn y wardiau perthnasol ei bod yn bwysig asesu anghenion cleifion gyda dementia pan gânt eu derbyn a sicrhau bod cleifion na allant fynegi eu hanghenion eu hunain yn cael cynnig diod yn rheolaidd.

Cytunodd y Bwrdd Iechyd hefyd i atgoffa'r holl feddygon sy'n gweithio yn y wardiau hyn i ystyried yn ddigonol sut i reoli iechyd coluddyn y cleifion, yn ogystal â chyfathrebu yn rheolaidd ag aelodau teulu neu ofalwyr cleifion na allant fynegi eu hanghenion eu hunain.

202105404

Gwasanaethau Ambiwylans y GIG Cymru

Adroddiad nad yw er budd y cyhoedd

Y gŵyn

Cwynodd Ms A am y gwasanaeth a gafodd ei diweddar thad, Mr D, a oedd yn byw gyda dementia a sgitsoffrenia, gan Wasanaethau Ambiwylans y GIG Cymru, ar ôl amheuaeth o strôc.

Dywedodd y dylai'r criw ambiwlans cyntaf a fu'n bresennol fod wedi mynd â'i thad i'r ysbyty. Roedd hi hefyd yn bryderus nad oedd yr ail griw ambiwlans a fu'n bresennol ac a aeth â'i thad i'r ysbyty wedi gwneud digon i barchu urddas ei thad. Nid oedd Mr D wedi gwisgo ar ei hanner isaf a disgynnodd y flanced yr oedd wedi'i lapio ynnddi wrth ei drosglwyddo i'r ambiwlans.

Dywedodd Ms A hefyd fod penderfyniad y criw ambiwlans cyntaf i beidio â mynd â Mr D i'r ysbyty yn golygu na chafodd ymchwiliad na thriniaeth ddigon da ar gyfer amheuaeth o strôc.

Yn olaf, roedd hi'n anhapus â'r ffordd y gwnaeth Gwasanaethau Ambiwylans y GIG Cymru drin â'i chwyn.

Yr hyn a ganfuom

Canfuom nad oedd digon o dystiolaeth i ddangos bod Gwasanaethau Ambiwylans y GIG Cymru wedi ystyried gwahanol ddewisiadau i drosglwyddo Mr D i'r ambiwlans gydag urddas.

Canfuom hefyd, gan y bu oedi cyn i Mr D gael ei dderbyn i'r ysbyty, fod hyn wedi arwain at oedi cyn ymchwilio i'w strôc. Er na fyddai hyn wedi newid y canlyniad clinigol ar gyfer Mr B, gallai fod wedi osgoi'r dirywiad diweddarach yn ei gyflwr.

Yn olaf, canfuom y gallai Gwasanaethau Ambiwylans y GIG Cymru fod wedi ymdrin â chwyn Ms A yn well, drwy nodi'r hyn a ddysgwyd o'r ffordd yr aeth i sylw Mr D.



Yr hyn a ddywedom

Nid oedd trosglwyddiad Mr D yn cyd-fynd ag **egwyddorion FREDA**, na safonau hyfedredd y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal ar gyfer Parafeddygon sy'n pwysleisio'r angen am "y parch mwyaf at urddas ym mhob cam"

Yr hyn a argymhellom

Cytunodd Gwasanaethau Ambiwlans y GIG Cymru i ymddiheuro i Ms A. Cytunodd hefyd i ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu i sicrhau ei fod yn dysgu o'r materion sy'n ymwneud ag asesu cleifion strôc, cynnal urddas, dogfennaeth ac asesiadau risg.

202204038

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Adroddiad nad yw er budd y cyhoedd

Y gŵyn

Cwynodd Ms Y am y gofal â'r driniaeth a gafodd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ystod ei hesgoriad.

Cwynodd na wrandodd y staff arni a bod ei hawliau mewn perthynas â dewis y claf wedi'u gwrthod. Cwynodd nad oedd wedi'i pharatoi'n ddigonol ar gyfer esgor ac na ddylai fod wedi'i rhoi i mewn i ysgogi'r esgor.

Cwynodd hefyd fod yr ymateb i gŵyn a gafodd gan y Bwrdd Iechyd yn annigonol, nad oedd yn mynd i'r afael yn llawn â'i phryderon a'i fod yn datgan yn anghywir ei bod yn fodlon â'r datrysiad arfaethedig.

Yr hyn a ganfuom

Canfuom ei bod yn rhesymol bod Ms Y wedi'i rhoi i gael ysgogi ei hesgoriad. Fodd bynnag, canfuom na pharchodd y Bwrdd Iechyd farn a dymuniadau Ms Y yn ystod ei hesgoriad ac felly fe wrthododd ei hawl i ddewis.

Canfuom hefyd fod yr ymateb i gŵyn a gafodd Ms Y yn fyr iawn, nad oedd yn cyd-fynd â'r canllawiau ac nad oedd wedi mynd i'r afael yn llawn â'r pryderon a gododd Ms Y. Achosodd hyn anghyfiawnder pellach i Ms Y oherwydd achosodd iddi deimlo eto nad oedd rhywun wedi gwrando arni.



Yr hyn a ddywedom

Dyweddodd Ms Y yn gyson ei bod eisiau toriad Cesaraidd yn ystod ei hesgoriad, tra yr oedd mewn poen a thrallod. Ni weithredodd y Bwrdd lechyd ar hyn fel y dylai fod wedi'i wneud. Ni ddilynodd y Bwrdd lechyd y broses gydsynio wrth fynd â Ms Y i'r theatr ac, er gwaethaf ei dymuniadau, ni roddodd sgrin i fyny yn ystod archwiliad. Nid oedd y methiannau hyn yn cyd-fynd ag egwyddor **FREDA o Ymreolaeth** gan na chafodd Ms Y gefnogaeth i wneud dewisiadau am ei gofal a'i thriniaeth.

Yr hyn a argymhellom

Cytunodd y Bwrdd lechyd i ymddiheuro i Ms Y a thalu swm o arian iddi fel iawndal ariannol. Cytunodd hefyd i rannu ein canfyddiadau â staff perthnasol, i adolygu sut mae'n hyfforddi staff i barchu dymuniadau cleifion ac i adolygu'r ffordd y mae'n ymdrin â chwynion yn yr achos hwn, i nodi pwyntiau dysgu.

202105742

Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Adroddiad nad yw er budd y cyhoedd

Y gŵyn

Cwynodd Mrs J am y modd y gwnaeth Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gefnogi ei chwaer, Miss M. Roedd Mrs J yn anhapus â gweithredoedd y Tîm Anabledd Dysgu (AD) pan ofynnwyd iddynt helpu i symud Miss M o i fyny'r grisiau yn ei chartref i gartref newydd, gyda Mrs J a'i theulu. Cwynodd Mrs J hefyd mai'r aelod o staff y Bwrdd lechyd a oedd yn destun ei chŵyn oedd wedi ymchwilio i'w chŵyn.

Yr hyn a ganfuom

Canfuom fod y Tîm AD wedi gweithredu ar y cychwyn fel y dylai fod wedi gwneud. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw frys ar ran gweithwyr proffesiynol i helpu Miss M i symud a chaniatawyd i'r sefyllfa "wyo" am lawer rhy hir. Er na allai staff y Bwrdd lechyd helpu'n gorfforol i symud Miss M, dylent fod wedi sicrhau bod Mrs J yn deall hyn. Fodd bynnag, nid oedd y dystiolaeth yn dangos bod hyn wedi'i esbonio i Mrs J. Canfuom hefyd y gallai Mrs J fod o dan yr argraff, yn gywir ddigon, nad oedd y Bwrdd lechyd wedi ystyried ei chwyn yn wrthrychol.



Yr hyn a ddywedom

Roedd gan Miss M anableddau dysgu ysgafn a Syndrom Down. Roedd yn bryderus ynghylch gadael ei hystafell a mynd i lawr y grisiau, ac roedd angen cymorth ar ei theulu gan y Bwrdd lechyd cyn iddynt symud tŷ. Oherwydd y methiannau a nodom, nid allai Miss M gymryd rhan mewn bywyd teuluol a gweithgareddau eraill am gyfnod hwy, a phenderfynom fod hyn yn golygu bod ei hawliau dynol o dan **Erthygl 8** wedi'u heffeithio.

Yr hyn a argymhellom

Cytunodd y Bwrdd lechyd i ymddiheuro i Mrs J a thalu iawndal ariannol iddi am y trallod a achoswyd. Cytunodd hefyd y byddai aelodau'r Tîm AD a oedd yn ymwneud â gofal Miss M yn myfyrio ar ein canfyddiadau ac yn ystyried pa wersi y gellir eu dysgu.

202305161

Cyngor Sir Penfro

Datrysiaid cynnar

Y gŵyn

Cwynodd Mrs A nad oedd Cyngor Sir Penfro wedi ymchwilio i'r lleithder yn ei heiddo yn ystod haf 2022, er iddo ddweud wrthi y byddai'n gwneud hynny. At hynny, dywedodd Mrs A nad oedd y Cyngor wedi ymateb i'w negeseuon e-bost ynghylch y mater.

Yr hyn a ganfuom

Canfuom fod y Cyngor, ym mis Mehefin 2022, wedi hysbysu Mrs A y byddai'n cynnal arolygiad o'i heiddo yn ystod yr haf hwnnw. Ymrwymodd i gofnodi darlleniadau lleithder i sefydlu a oedd lleithder gwirioneddol yn yr eiddo, yn hytrach na llwydni a oedd wedi'i achosi gan anwedd. Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod yr arolygiad hwnnw wedi'i gynnal.

Canfuom hefyd na wnaeth y Cyngor ymateb i gŵyn a gyflwynodd Mrs A ym mis Medi'r flwyddyn honno, fel y dylai fod wedi gwneud, yn unol â'i bolisi cwynion.



Yr hyn a ddywedom

Nodom y dylai atgyweiriadau arferol gael eu gwneud o fewn 35 diwrnod fel arfer, yn unol â pholisi'r Cyngor ar atgyweiriadau tai.

Roeddem yn deall y gallai fod rhywfaint o oedi, o ystyried bod angen arolygiad a fyddai'n debygol o gael ei gynnal gan gwmni allanol. Er hynny, nid oedd oedi o 16 mis yn dderbyniol.

Er na wnaethom nodi hyn wrth gyhoeddi ein penderfyniad, gellid dadlau y gallai'r methiannau yn yr achos hwn a'r effaith ar Mrs A fod yn berthnasol ag **Erthygl 8** – yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth.

Yr hyn a argymhellom

Gwnaethom ddatrys yr achos hwn heb ymchwiliad llawn. Cytunodd y Cyngor i ymddiheuro i Mrs A ac ymateb i'w chwyn.

Cytunodd hefyd i gynnal archwiliad llawn o eiddo Mrs A i gofnodi darlleniadau lleithder, gyda'r bwriad o ganfod achos y lleithder.

Yn olaf, cytunodd y byddai'n dweud wrth Mrs A am ganfyddiadau'r arolygiad, o fewn 10 diwrnod gwaith, ynghyd â darparu cynllun gwaith arfaethedig i fynd i'r afael ag achos y lleithder, yn ôl yr angen.

Achos yn ymwneud â gwasanaethau rhywedd

202201054

Practis Meddyg Teulu yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Datrysiaid cynnar

Y gŵyn

Cwynodd Ms D am y gwasanaeth a gafodd pan gofrestrodd gyda'r practis Meddyg Teulu, ar ôl symud i'r ardal o'r tu allan i Gymru.

Ym mis Mawrth 2022, gofynnodd Ms D, sef claf trawsryweddol, am bresgripsiwn ailadroddus ar gyfer meddyginiaethau amrywiol, gan gynnwys meddyginiaeth Therapi Adfer Hormonau (HRT). Gwrthododd y Practis ragnodi'r feddyginiaeth HRT ac yn lle hynny gwnaeth atgyfeiriad i Wasanaeth Rhywedd Cymru.

Yr hyn a ganfuom

Canfuom fod y Practis wedi gweithredu'n gyffredinol yn unol â'r canllawiau atgyfeirio a rhagnodi sydd ar waith gyda Gwasanaeth Rhywedd Cymru. Fodd bynnag, wrth gymryd agwedd ofalus a gwneud atgyfeiriad newydd, gadawyd Ms D heb y feddyginiaeth yr oedd ei hangen arni i gynnal cydbwysedd hormonau iach am sawl wythnos.

Bu rhywfaint o gyfathrebu gwael gyda Ms D ynghylch y rhesymau pam yr oedd angen yr atgyfeiriad, a oedd yn achosi siomedigaeth a gofid. Canfuom y gallai'r Practis fod wedi cysylltu â Gwasanaeth Rhywedd Cymru am gyngor ar ragnodi i egluro'r sefyllfa drwy e-bost, ac y gallai fod wedi gwneud hynny'n gynt, a allai fod wedi atal Ms D rhag bod heb feddyginiaeth neu o leiaf wedi lleihau unrhyw oedi.



Yr hyn a ddywedom

Cysylltodd Ms D â ni oherwydd iddi ystyried bod agwedd y meddyg teulu o ran ei meddyginiaeth HRT yn wahaniaethol. Fodd bynnag, bu'n rhaid i ni gofio bod y Practis Meddyg Teulu yn dilyn y canllawiau a osodwyd gan Wasanaeth Rhywedd Cymru.

Nododd ein Cynghorwr yn yr achos hwn nad oedd llwybr penodol ar gyfer gofalu am glaf sy'n cofrestru yng Nghymru ar ôl cael ei drin y tu allan i Gymru. Am y rheswm hwn, er i ni wneud rhai argymhellion ar gyfer y Practis Meddyg Teulu, gwnaethom godi'r mater hwn hefyd gyda Gwasanaeth Rhywedd Cymru, ar wahân.

Yr hyn a argymhellom

Penderfynom setlo'r gŵyn heb ymchwiliad. Cytunodd y Practis i ymddiheuro i Ms D am yr oedi cyn egluro materion gyda Gwasanaeth Rhywedd Cymru a rhoi presgripsiwn.

Cytunodd hefyd i gyfarfod â Ms D i drafod ei phryderon a'i phrofiad gyda'r bwriad o'i hadfer fel claf gyda'r Practis.

Yn olaf, cytunodd i drafod y mater mewn cyfarfod clinigol a hysbysu'r holl feddygon teulu am y cyfleuster anffurfiol i geisio cyngor ar ragnodi gan Wasanaeth Rhywedd Cymru, drwy e-bost.

Achosion yn ymwneud ag addasiadau rhesymol

Addasiadau rhesymol

O dan y Ddeddf Gydraddoldeb, rhaid i ddarparwyr gwasanaeth roi addasiadau rhesymol i bobl anabl. Mae darparu addasiadau rhesymol yn golygu bod yn rhaid i sefydliadau gymryd camau cadarnhaol i gael gwared ar y rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu oherwydd eu hanabledd.

202300591

Tai Cymunedol Bron Afon Cyf.

Y gŵyn

Cwynodd Ms B i ni drwy eiriolwr fod Panel Addasiadau (AP) y Gymdeithas Tai wedi gwrthod ariannu gwaith i addasu ei chartref, i'w galluogi ei merch anabl i aros yn ei heiddo.

Roedd yn bryderus nad oedd y teulu wedi cael cyfle rhesymol i gyflwyno eu hachos yn uniongyrchol i'r Panel a bod eu barn wedi cael ei diystyru.

Roedd hi hefyd yn bryderus bod y Panel, drwy wrthod ariannu ac ymgymryd â rhywfaint o'r gwaith y gofynnwyd amdano, wedi diystyru hawliau'r teulu o dan y Ddeddf Gydraddoldeb.

Yr hyn a ganfuom

Gwelsom dystiolaeth fod dymuniadau'r teulu wedi'u hystyried yn llawn fel rhan o broses gwneud penderfyniadau'r AP ac na chawsant eu "diystyru". Nid oes hawl gweithdrefnol i siarad yn uniongyrchol yn bersonol â'r AP. Yn ein barn ni, roedd yn ymddangos bod y Gymdeithas Tai wedi gwerthuso pa ddewisiadau a fyddai'n gost-effeithiol ac yn briodol, mewn perthynas â'u stoc tai ehangach, a'i fod wedi gwneud hynny yn unol â'i pholisi a'i chanllawiau.



Yr hyn a ddywedom

Ar y cyfan, canfuom ei bod yn ymddangos bod penderfyniad y Gymdeithas Tai yn gytûn ag egwyddorion Deddf Cydraddoldeb 2010, gan y gallai ceisiadau am addasiadau gael eu gwrthod os bernir eu bod yn afresymol.

Fodd bynnag, er ei bod yn ymddangos bod y Gymdeithas Tai wedi ystyried ei dyletswydd i ddarparu addasiadau rhesymol, nodom fod ei meini prawf a'i chanllawiau yn ddyddiedig 2009.

Felly, roedd angen eu diweddarau i ymgorffori ac i adlewyrchu deddfwriaeth fwy newydd a pherthnasol, gan gynnwys y Ddeddf Cydraddoldeb.

Yr hyn a argymhellom

Gofynnem i'r Gymdeithas Tai ystyried diweddarau ei meini prawf a'i chanllawiau gan ystyried y Ddeddf Cydraddoldeb a pharatoi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

202107242

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Adroddiad nad yw er budd y cyhoedd

Y gŵyn

Cwynodd Mrs A am y gofal a gafodd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn Ysbyty Nevill Hall yn ystod cyfnodau amrywiol ei beichiogrwydd a'i gofal ôl-enedigol. Cwynodd hefyd na chafodd gefnogaeth gyda bwydo ar y fron a chyswllt croen-i-groen gyda'i mab yn dilyn ei enedigaeth.

Roedd Mrs A hefyd yn pryderu am reolau ymweld yr uned newyddenedigol ac na wnaeth y Bwrdd Iechyd addasiadau rhesymol iddi, er gwaethaf ei chyflwr iechyd meddwl.

Yn olaf, cwynodd Mrs A nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi ymdrin â'i chwyn yn dda.

Yr hyn a ganfuom

Gwnaethom gadarnhau cwynion Ms A. Gwelsom fethiannau mewn perthynas â rheoli poen (yn ystod esgor cynnar) a chyfathrebu â Ms A. Canfuom hefyd y gallai'r Bwrdd lechyd fod wedi gwneud mwy i gefnogi Ms A gyda bwydo ar y fron a chyswllt croen wrth groen.

Wrth gymhwyso ei drefniadau ymweld newyddenedigol, ni wnaeth y Bwrdd lechyd ystyried hawl Ms A i addasiadau rhesymol.

Canfuom hefyd nad oedd y Bwrdd lechyd wedi ymdrin â chwyn Ms A yn ddigon da ac ni ystyriodd ei ddyletswyddau cydraddoldeb yn ei ymateb.



Yr hyn a ddywedom

Roedd anabledd Ms A yn golygu bod gan y Bwrdd lechyd ddyletswydd statudol i'w chefnogi o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Dylai'r Bwrdd lechyd fod wedi gallu dangos ei fod wedi ystyried gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer Ms A.

Roeddem yn bryderus nad oedd llawer o dystiolaeth, ar wahân i episodau unigol, bod y Bwrdd lechyd wedi ystyried addasiadau rhesymol neu a oedd y canllawiau ymweld yn berthnasol, yn yr achos hwn.

Yr hyn a argymhellom

Cytunodd y Bwrdd lechyd i ymddiheuro i Ms A. Cytunodd i rannu ein hadroddiad yn fewnol gyda'i Swyddog Cydraddoldeb ac i drefnu hyfforddiant i staff mamolaeth ar addasiadau rhesymol.

Cytunodd y Bwrdd lechyd hefyd i gynnwys ei Swyddog Cydraddoldeb yn ystod y broses, pan fydd achwynwyr yn codi materion yn ymwneud ag addasiadau rhesymol.

202203628

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Adroddiad nad yw er budd y cyhoedd

Y gŵyn

Cwynodd Ms Y am y gofal a'r driniaeth a roddodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i'w mam, Mrs J, pan oedd yn yr ysbyty.

Cwynodd Ms Y nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi asesu anghenion ei mam yn drylwyr a'i fod wedi colli cyfleoedd i gynnwys y Tîm Gofal Lliniarol Arbenigol. Cwynodd hefyd nad oedd staff clinigol wedi cydnabod y dirywiad yn Mrs J.

Roedd Ms Y hefyd yn bryderus nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi gwneud addasiadau rhesymol i sicrhau bod Mrs J, a oedd â nam ar ei chlyw, yn deall gwybodaeth ac yn gallu mynegi ei barn.

Yr hyn a ganfuom

Canfuom fod y Bwrdd Iechyd wedi colli cyfleoedd i gynnwys y Tîm Gofal Lliniarol Arbenigol yng ngofal Mrs J ac i gefnogi ei theulu. Oherwydd hyn, ni chafodd Mrs J ddigon o gyffuriau lleddfu poen am beth amser.

Canfuom hefyd, er bod y staff wedi trafod ei gofal a'i thriniaeth â Mrs J, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod staff wedi sicrhau bod Mrs J yn gwisgo ei chymhorthion clyw. Nid oedd dystiolaeth ychwaith fod staff wedi ystyried a oedd Mrs J angen unrhyw addasiadau eraill i'w helpu i gyfathrebu a deall gwybodaeth.



Yr hyn a ddywedom

Roedd Mrs J yn sâl, mewn amgylchedd anghyfarwydd, ac nid oedd ei theulu yn bresennol ar adegau i'w chefnogi. Nid oedd bob amser yn gwisgo ei chymhorthion clyw a mynegodd ei theulu bryderon wrth staff am ei gallu i ddeall gwybodaeth a rannwyd â hi.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'n ofynnol i sefydliadau'r sector cyhoeddus wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl, gan gynnwys y sawl sydd â nam ar y clyw.

Ar sail y dystiolaeth a welsom, nid oedd yn bosibl bod yn siŵr bod staff wedi gwirio a oedd Mrs J yn gwisgo ei chymhorthion clyw neu a oedd angen unrhyw addasiadau eraill arni. Roedd hyn yn anghyfiawnder i Mrs J a'i theulu.

Yr hyn a argymhellom

Cytunodd y Bwrdd Iechyd i ymddiheuro i Ms Y. Cytunodd hefyd i rannu ein canfyddiadau â staff clinigol perthnasol ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am yr hyn y byddai'n ei wneud i wella cyfathrebu mewnol â'r Tîm Gofal Lliniarol Arbenigol.

Cytunodd y Bwrdd Iechyd hefyd i adolygu sut mae'n cefnogi pobl â nam ar eu clyw a sut mae hyn yn cael ei ddogfennu yn nodiadau claf.

202102222

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Adroddiad nad yw er budd y cyhoedd

Y gŵyn

Cwynodd Mr A nad oedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi ystyried ei anghenion iechyd meddwl cymhleth (oherwydd Anhwylder Straen Ôl-drawmatig (PTSD) a syndrom Asperger) wrth ei drin yn Ysbyty Brenhinol Gwent ym mis Mehefin 2020.

Cwynodd hefyd na wnaeth y Bwrdd Iechyd ei ryddhau yn ddiogel ac na roddodd y cymorth priodol iddo gan y tîm iechyd meddwl cymunedol.

Yn olaf, dywedodd nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi ymateb yn briodol i'w gwynion.

Yr hyn a ganfuom

Canfuom fod y Bwrdd Iechyd wedi darparu cymorth iechyd meddwl priodol a digonol i Mr A a'i fod wedi cymryd camau priodol i ystyried anghenion iechyd meddwl cymhleth Mr A. Roedd rhyddhau Mr A hefyd yn briodol.

Fodd bynnag, cytunom fod y Bwrdd Iechyd wedi cymryd gormod o amser i ymateb i gwynion Mr A ac na aeth i'r afael yn llawn â'i bryderon. Roedd hyn, yn rhannol o leiaf, gan fod y Bwrdd Iechyd wedi colli rhai o gofnodion ysbyty Mr A.



Yr hyn a ddywedom

Wrth ystyried yr achos hwn, roeddem yn cydnabod y gellid ystyried PTSD a syndrom Asperger fel anabledau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (er nad ein rôl ni oedd pennu a oedd hynny'n wir yn achos Mr A). Mae dyletswydd ar gyrfwr cyhoeddus i ystyried gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl, i sicrhau nad yw'r bobl hynny o dan anfantais sylweddol.

Gwnaethom nodi nad oedd Mr A wedi pennu'r addasiadau rhesymol yr oedd yn eu ceisio neu'n eu disgwyl gan y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, mae'r dyletswydd i ddarparu addasiadau rhesymol yn 'ddisgwyllgar', sy'n golygu y dylai clinigwyr fod wedi bod yn effro i'r posibilrwydd y gallai fod gan Mr A anghenion ychwanegol.

Gwelsom dystiolaeth fod clinigwyr yn cydnabod bod gan Mr A PTSD a syndrom Asperger pan gafodd ei weld yn yr ysbyty. Fodd bynnag, er y gwnaed rhai addasiadau ar gyfer Mr A, penderfynom y gallai'r Bwrdd Iechyd wneud gwelliannau.

Yr hyn a argymhellom

Gwnaethom wahodd y Bwrdd Iechyd i ystyried angen Mr A am addasiadau rhesymol yn y dyfodol. Yn fwy cyffredinol, gwnaethom ei wahodd i adolygu sut mae'n nodi cleifion anabl yn brydlon pan fyddant yn mynychu'r adran achosion brys a sut mae'n ystyried ac yn mynd i'r afael â'r posibilrwydd y gallai fod ganddynt anghenion ychwanegol oherwydd unrhyw anabled a nodwyd.

Gwnaethom argymhell hefyd fod y Bwrdd Iechyd yn ymddiheuro am y methiannau o ran ymdrin â chwynion, yn talu iawndal iddo ac yn cymryd camau i geisio lleihau'r risg o gamleoli cofnodion yn y dyfodol.

202102508

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Adroddiad nad yw er budd y cyhoedd

Y gŵyn

Cwynodd Mr B am y gofal a'r driniaeth a roddodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i'w ddiweddar wraig, Mrs B, pan gafodd ei derbyn i 2 ysbyty.

Holodd Mr B pam y cafodd Mrs B ei symud i ward COVID-19 pan ddangosodd profion ei bod yn "bositif isel" ar gyfer COVID-19 a pham y cafodd inswlin pan oedd lefel ei siwgr gwaed yn isel.

Cwynodd Mr B fod trallwysiad gwaed Mrs B wedi achosi adwaith andwyol, gan nad oedd y gwaed yn cyfateb i ethnigrwydd Mrs B.

Dywedodd nad wnaeth y Bwrdd Iechyd gyfathrebu ag ef a Mrs B am ei hanghenion. Defnyddiodd y Bwrdd Iechyd wasanaeth o'r enw 'language line' i gyfieithu ar gyfer Mrs B. Roedd Mr B o'r farn nad oedd y gwasanaeth yn effeithiol ac y dylai'r Bwrdd Iechyd fod wedi defnyddio ei staff ei hun a oedd yn siarad Nepali. Dywedodd fod ei wraig wedi dweud wrtho na allai ddeall yr hyn yr oedd meddygon a nyrsys yn ei ddweud. Dywedodd y gallai'r nyrsys fod wedi bod yn "hiliol".

Yn olaf, cwynodd Mr B nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi ymdrin â'i gŵyn yn dda.

Yr hyn a ganfuom

Canfuom fod y Bwrdd Iechyd yn iawn i symud Mrs B i ward COVID-19 pan ddatblygodd dymheredd. Cymerodd y Bwrdd Iechyd y camau cywir i brofi Mrs B am COVID-19.

Canfuom hefyd fod Mrs B wedi cael ei thrin yn briodol ag inswlin. Ni chanfuom ychwaith unrhyw dystiolaeth y bu cymhlethdodau neu sgîl-ffeithiau o drallwysiad gwaed Mrs B a chafodd gwaed y rhoddwyr eu profi yn erbyn sampl gwaed Mrs B i'w paru.

Fodd bynnag, canfuom na chyfathrebodd y Bwrdd Iechyd â Mrs B a Mr B cystal ag y dylai fod wedi gwneud. Er i ni benderfynu bod y Bwrdd Iechyd wedi ymateb yn dda, ar y cyfan, i gŵyn Mr B, gwelsom na nododd y methiannau hynny o ran cyfathrebu. Roedd hyn yn golygu ei fod wedi colli cyfleoedd i ddysgu gwersi.



Yr hyn a ddywedom

Penderfynom fod y Bwrdd Iechyd wedi dilyn ei bolisi ar wasanaethau iaith a chyfieithu ar y pryd a'i fod yn iawn i ddefnyddio 'language line'. Fodd bynnag, ar y cyfan, canfuom nad oedd y cyfathrebu â theulu Mrs B mor effeithiol ag y gallai fod.

Yr hyn a argymhellom

Cytunodd y Bwrdd Iechyd i ymddiheuro i Mr B am y methiannau a nodom.

Atodiad- Erthyglau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol



Erthygl 2 - Yr hawl i fywyd - hawl absoliwt.

Mae hyn yn cynnwys amddiffyn bywyd gan awdurdodau cyhoeddus. Gall erthygl 2 fod yn berthnasol i'w hystyried pan fo honiad o farwolaeth osgoadwy, darparu triniaeth achub bywyd neu oedi cyn rhoi triniaeth. Mae'n gosod rhwymedigaethau cadarnhaol (i wneud rhywbeth) neu negyddol (i beidio â gwneud rhywbeth) ar gyrff cyhoeddus.

Erthygl 3 - Yr hawl i fod yn rhydd rhag artaith neu driniaeth neu gosb greulon, annynol neu ddiraddiol - hawl absoliwt

Caiff artaith ei ddiffinio fel achosi poen neu ddiodefaint difrifol i rywun yn fwriadol. Mae triniaeth annynol yn achosi diodefaint corfforol neu feddyliol, felly gellid ei ystyried yn greulon neu'n farbaraidd ond nid oes angen iddo fod yn fwriadol. Mae triniaeth ddiraddiol yn hynod fychanol neu anurddasol ac, eto, nid oes angen iddi fod yn fwriadol. I fodloni Erthygl 3, mae'n debygol y byddai angen i'r driniaeth fod yn berthnasol am oriau estynedig a gall gynnwys esgeuluso dyletswyddau, defnyddio ataliaeth, neu driniaeth sy'n groes i ddymuniadau person. Mae llysoedd wedi gosod trothwy uchel ar gyfer Erthygl 3, ond yn aml gellir edrych ar ystyriaethau o'r fath drwy Erthygl 8 (hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), gan fod yr effaith ar yr unigolyn yn hollbwysig.

Erthygl 5 - Yr hawl i ryddid a diogelwch - hawl gyfyngedig

Gall hyn fod yn berthnasol pan gaiff rywun ei gadw mewn rhyw ffordd - h.y. ddim yn rhydd i adael. Rhoddir ystyriaeth i'r cyd-destun a'r gyfraith - e.e., gall person gael ei amddifadu o'i ryddid yn gyfreithlon yn dilyn collfarn a dedfryd gan y llysoedd. Mewn lleoliadau iechyd meddwl neu gartrefi gofal, byddem yn ystyried y mesurau diogelu gweithdrefnol a roddwyd ar waith cyn unrhyw gyfnod cadw - megis y broses briodol o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

Erthygl 6 - Yr hawl i gael gwrandawriad teg - hawl absoliwt.

Mae'r hawl i brawf teg yn ymwneud â phenderfyniadau am hawliau sifil neu wrth ddelio â chyhuddiad troseddol. Dylai cyrff cyhoeddus fodloni'r gofyniad hwn, hefyd, yn eu prosesau ymdrin â chwynion, o ran tegwch gweithdrefnol. A yw'r awdurdod cyhoeddus wedi darparu penderfyniad rhesymegol, fel bod rhywun yn gwybod y sail ar ei gyfer er mwyn penderfynu a ddylid ei herio ymhellach (drwy unrhyw broses apelio)? A yw cyfansoddiad corff/panel penderfynu yn sicrhau tegwch a didueddrwydd? Gellir cyfyngu ar hawl i dreial cyhoeddus os oes angen gwahardd y cyhoedd er mwyn diogelu rhai buddiannau a/neu os oes hawl i fwrw ymlaen i lys tribiwnlys sy'n cydymffurfio â'r gofyniad hwnnw.

Erthygl 8 - Yr hawl i gael parch am fywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth - hawl amodol.

Mae cysylltiad cryf rhwng yr erthygl hon ac egwyddorion FREDA o urddas, parch ac ymreolaeth. Gall gynnwys cyfeiriadedd rhywiol/materion rhywedd, yr hawl i gael mynediad at wybodaeth a gedwir am berson neu'r hawl i fyw'n annibynnol ac i wneud dewisiadau. Mae hawl i fwynhau eich cartref heb i sŵn neu lygredd effeithio arno ac i fwynhau byw fel teulu, lle bo modd. Gall orgyffwrdd yn sylweddol â'r hawliau a nodir yn Erthygl 3 mewn materion urddas.

Erthygl 9 - Yr hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd - hawl absoliwt (a chyfyngedig).

Er bod yr hawl i arddel cred grefyddol yn absoliwt, mae achosion lle y gellir ymyrryd â'r hawl i'w hamlygu, felly mae'r agwedd honno yn hawl gyfyngedig – e.e., byddai disgybl sy'n dymuno gwisgo gwisg ffydd draddodiadol yn amlygu ei grefydd. Fodd bynnag, os oes gan yr ysgol god gwisg ysgol lem, yna gallai fynnu bod y disgybl yn gwisgo'r wisg ysgol (gan amharu ar amlygiad ei grefydd). Er hynny, gallant arddel eu credoau crefyddol. Mae hawl i gael addysg plant yn unol â chredoau crefyddol, er nad oes dyletswydd ar awdurdodau i ddarparu ysgolion crefyddol ar wahân ar gais. Dylai cyrff gofal iechyd ddiogelu hawl unigolyn i amlygu credoau crefyddol pan fo'n ymarferol bodloni'r holl ofynion.

Erthygl 10 - Yr hawl i ryddid mynegiant - hawl amodol.

Mae gan bawb yr hawl i arddel barn a mynegi barn, hyd yn oed os ydynt weithiau yn amhoblogaidd. Gall fod angen ymyrryd â nhw er budd diogelwch y cyhoedd, neu i atal datgelu gwybodaeth a dderbynnir yn gyfrinachol.

Erthygl 14 - Gwahardd gwahaniaethu - gellir ond ei defnyddio gyda hawliau eraill.

Wedi'i chysylltu'n gryf â'r Ddeddf Cydraddoldeb, nid yw'r hawl hon yn sefyll ar ei phen ei hun ac felly gellir ond ei defnyddio os yw'n gysylltiedig ag un o'r Erthyglau hawliau dynol eraill.



Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru · Wales

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203
E-bost: holwch@ombwdsmon.cymru
Dilynwch ni ar X: @OmbudsmanWales